# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Gelli

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Y Gelli yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol lle mae arweinwyr wedi meithrin gweledigaeth glir i greu amgylchedd dysgu hapus. Mae perthnasoedd gwaith cryf rhwng staff a disgyblion yn creu ymdeimlad o berthyn a pharch. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion ac yn eu cefnogi i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. O’r cychwyn cyntaf, mae disgyblion yn chwilfrydig ac yn hyderus wrth wynebu heriau. Mae’r rhan fwyaf yn cydweithio’n dda ac yn dangos empathi.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae medrau gwrando a chyfathrebu'r disgyblion yn gryf ac maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ac yn ysgrifennu’n effeithiol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae dealltwriaeth fathemategol a medrau digidol y disgyblion yn datblygu’n gadarn. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn galluogi i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn gydlynus mewn ystod gyfoethog o weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon wedi dechrau datblygu cwricwlwm sy’n cwmpasu’r meysydd dysgu a phrofiad i gynnig ehangder o brofiadau i’r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm wedi ei datblygu’n llawn, ac o ganlyniad, nid oes cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion gymhwyso eu medrau mewn ystod o brofiadau ysgogol ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithio’n annibynnol ar eu tasgau. Mae’r berthynas waith gadarn yn golygu bod disgyblion yn ymateb yn amserol i adborth er mwyn gwella eu gwaith. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu’n ddysgwyr gwbl annibynnol a chwilfrydig.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae’r pennaeth mewn gofal yn caffael barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ac yn gweithredu’n  amserol ar y canfyddiadau.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu cwricwlwm ysgogol sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso ystod lawn o fedrau yn fwriadus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu cyfleoedd i herio disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025